WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a phob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am gael eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal chi a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost at info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella yng Nghymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a’i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ. Ffôn 029 2032 0500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu ewch i'r wefan yn www.wao.gov.uk.

(h) Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2010

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


Pa fath o ardal yw Castell-nedd Port Talbot? 04

A yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cael ei reoli'n dda? 05

A yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella? 07

A yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gwasanaethu pobl yn dda? 10

A yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn helpu pobl mewn angen? 11

A yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn helpu pobl i ddatblygu? 14

A yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw? 16

Beth ddylai Cyngor Castell-nedd Port Talbot ei wneud? 18


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 19

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Gastell-nedd Port Talbot a Chyngor Castell-nedd Port Talbot 21

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 23

Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot 24

Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Castell-nedd Port Talbot 26

Atodiad 6 - Cyfeiriadau 27

# Pa fath o ardal yw Castell-nedd Port Talbot?

1 Mae gan Gastell-nedd Port Talbot arwynebedd daearyddol o 442km$^2$, sef yr 11fed ardal awdurdod lleol fwyaf yng Nghymru. Mae'r sir yn cysylltu'r twyni tywod ar ymyl dwyreiniol Bae Abertawe â'r cymoedd ucheldir sy'n ffinio â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r ardal ucheldir, sydd â rhannau helaeth wedi'u gorchuddio â choed, yn cynnwys pum cwm, sef Cwm Nedd, Cwm Dulais, Cwm Afan, Cwm Tawe a Blaenau Dyffryn Aman. Y prif drefi yw Castell-nedd a Phort Talbot, fodd bynnag, mae Llansawel, Pontardawe a Glyn-nedd hefyd yn bwysig.

2 Yn 2009, amcangyfrifwyd mai 137,425 oedd poblogaeth y fwrdeistref, sy'n golygu mai Castell-nedd Port Talbot yw'r wythfed cyngor fwyaf yng Nghymru. O 2009 i 2021, disgwylir i'r boblogaeth gynyddu 7,000, sef cynnydd o 5.2 y cant. Bydd y boblogaeth sy'n iau na 65 oed yn parhau'n sefydlog ar y cyfan, ond disgwylir cynnydd sylweddol yn y boblogaeth sy'n hŷn na 65 oed.

3 Ganed 90 y cant o boblogaeth y fwrdeistref yng Nghymru a gall 20.3 y cant o'r boblogaeth siarad Cymraeg, o gymharu â 25.6 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru. Hon yw'r ddegfed ganran uchaf o blith awdurdodau lleol Cymru.

4 Yn 2009, y gyfradd gyflogaeth oedd 60.7 y cant. Cyflogir ychydig yn llai na 30,000 o bobl yn y diwydiannau gwasanaeth (gweinyddu cyhoeddus, addysg, iechyd, dosbarthu, gwestai a bwytai), sef hanner y bobl yn y sir sydd mewn cyflogaeth. Roedd pum gwaith yn fwy o bobl wedi'u cyflogi ym maes gweithgynhyrchu nag adeiladu, er bod y ganran uchaf o fusnesau a gofrestrwyd ar gyfer TAW yng Nghastell-nedd Port Talbot yn 2008 yn fusnesau adeiladu (16 y cant). Manwerthu oedd y sector mwyaf ond un (12 y cant).

5 Mae rhagor o wybodaeth am Gastell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor) yn Atodiad 2.

ardal ddaearyddol
442 km$^2$
/////////////

poblogaeth
137,425
/////////////

siaradwyr cymraeg
20.3%
/////////////

# A yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cael ei reoli'n dda?

6 Ym mis Gorffennaf eleni, lluniodd yr Archwilydd Cyffredinol Adroddiad Asesu Corfforaethol Rhagarweiniol sy'n cynnwys cryn dipyn o fanylion o ran sut y caiff y Cyngor ei drefnu a'i reoli. Nodir ein canfyddiadau yn Atodiad 3. Os hoffech ddarllen yr adroddiad llawn, mae ar gael ar wefan y Cyngor www.neath-porttalbot.gov.uk) neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).

7 Casgliad cyffredinol yr adroddiad yw bod y Cyngor yn gwella mewn nifer o feysydd. Mae ganddo gryfderau penodol mewn perthynas â'i arweinwyr, y ffordd y mae'n cynllunio gwasanaethau a'r ffordd y mae'n rheoli ei arian. Ond mae ganddo wendidau hefyd, yn cynnwys y ffordd y mae'n defnyddio technoleg, a rhai agweddau ar y ffordd y mae'n rheoli ei staff a'r ffordd y mae'n gweithio gyda sefydliadau eraill.

8 Canfuwyd yn y gorffennol bod y Cyngor yn dibynnu ar drefniadau traddodiadol a oedd yn darparu gwasanaethau cadarn. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo foderneiddio ac mae'n gwneud penderfyniadau pwysig ynghylch darparu ei wasanaethau yn y dyfodol yn sgîl y toriadau yng ngwariant sector cyhoeddus.

9 Wrth lunio ein hadroddiad ym mis Gorffennaf 2010, nodwyd nifer o feysydd i'w gwella. Nodir y rhain yn y tabl ar dudalen 18. Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'n cynigion, ac mae wedi gwneud y canlynol ers mis Gorffennaf:

- mae'r Cabinet wedi cymeradwyo dull arfarnu perfformiad newydd;
- mae swyddogion, dan arweiniad y Prif Weithredwr, ar hyn o bryd yn gweithio ar y ffordd orau i rannu dysgu ar draws y Cyngor;
- datblygwyd mesurau y gellir eu defnyddio i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau;
- datblygwyd model newydd ar gyfer y bartneriaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles a ddefnyddir i symleiddio gweithio mewn partneriaeth ehangach;
- lluniwyd strategaeth TGCh ddrafft.

10 Ers i ni lunio'r Asesiad Corfforaethol, mae'r pwysau wedi cynyddu ar bob gwasanaeth cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o'i holl adnoddau. Rheolwyd cyllideb y Cyngor yn dda dros y blynyddoedd diwethaf, er bod gorwario ym maes gofal cymdeithasol oherwydd galw cynyddol am wasanaethau plant a gofal parhaus wedi gosod baich ariannol ychwanegol ar y Cyngor. Mae'r rheolaeth ariannol effeithiol hon yn sail gadarn i'r Cyngor wrth iddo wynebu cyfnod o newid sylweddol a thoriadau ariannol, gan fod ganddo hanes da o sicrhau y caiff ei wasanaethau eu darparu gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â rhai heriau ariannol sylweddol os yw am sicrhau lefel yr arbedion a ragwelir ganddo.

11 Bu'r Cyngor yn ymwybodol ers cryn amser ei fod yn wynebu pwysau cyllidebol sylweddol yn y byrdymor i'r tymor canolig ac amcangyfrifwyd bod angen gwneud arbedion gwerth £29 miliwn rhwng 2009 a 2014. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo newid y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau os yw am wella ansawdd wrth fynd i'r afael â'r pwysau ariannol hwn. Gweithredwyd rhaglen adolygu gwasanaethau gyda'r nod o drawsnewid sut y darperir gwasanaethau, a chefnogir hyn gan Flaenraglen Ariannol sy'n amlinellu sut y cyflawnir yr arbedion hyn. Fodd bynnag, ceir bwlch ariannu yn y Flaenraglen Ariannol lle nad yw camau i gyflawni'r arbedion a nodwyd wedi'u nodi'n derfynol hyd yma. Mae angen nodi'r camau hyn, a chytuno arnynt, fel mater o flaenoriaeth.

12 Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ei gynigion yn arwain at arbedion digonol o ran costau i fantoli'r gyllideb refeniw erbyn 2014. Fodd bynnag, bellach mae angen ystyried penderfyniadau diweddar Llywodraeth y Cynulliad o ran blaenoriaethau ariannu lleol Cymru fel rhan o'r cynlluniau hyn, ac mae aelodau a swyddogion yn ymwybodol iawn y bydd angen iddynt wneud penderfyniadau anodd os cynigir toriadau sylweddol i'r gyllideb.

13 Mae'r archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi ei farn ar gyfrifon y Cyngor. Mae ei Lythyr Archwilio Blynyddol, sy'n rhoi gwybodaeth am y cyfrifon, y defnydd a wneir o adnoddau a Chynllun Gwella'r Cyngor wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn fel Atodiad 4.

14 Ceir rhagor o wybodaeth am hawl pobl mewn perthynas â chyfrifon y cyngor yn nhaflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, sydd ar gael ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk.

15 Gwahoddwyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gan y Cyngor i arwain Adolygiad Ariannol gan Gymheiriaid, a gofynnwyd i'r adolygiad roi ystyriaeth benodol i gadernid strategaeth ariannol tymor canolig y Cyngor ac integreiddio'r Rhaglen Drawsnewid â'r cylch cyllidebol blynyddol.

16 Canfu'r cymheiriaid fod gan yr awdurdod lawer o gryfderau, yn enwedig ei ffocws clir ar heriau ariannol yn y dyfodol drwy ei Flaenraglen Ariannol - sydd bellach yn yr ail flwyddyn o'r broses o'i chyflawni - a'i Raglen Drawsnewid. Hefyd ceir dealltwriaeth eang ymhlith Aelodau a staff o raddau'r her a wynebir a'r penderfyniadau anodd sydd angen eu gwneud.

17 Roedd trefniadau rheoli ariannol y Cyngor wedi gwneud argraff dda ar y cymheiriaid, a'r cynnydd a wnaed ganddo o ran y Flaenraglen Ariannol, er iddynt wneud rhai argymhellion ymarferol i ddatblygu hyn ymhellach, yn cynnwys ymgorffori'r rhaglen gyfalaf o fewn y Flaenraglen Ariannol. Roedd y cymheiriaid hefyd wedi'u plesio gan y gyfres o adolygiadau system sy'n mynd rhagddynt, o ran eu canlyniadau a brwdfrydedd staff drwy'r Cyngor cyfan amdanynt.

# A yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella?

18 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella'r hyn a wna a sut mae'n ei wneud. Mae'n rhaid iddynt hefyd gyhoeddi rhestr o'r prif flaenoriaethau y maent yn bwriadu eu gwella bob blwyddyn - eu hamcanion gwella. Ar gyfer 2010-11, penderfynodd y Cyngor ganolbwyntio ar 10 amcan, y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Gwella tai
- Gwella gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn
- Gwella addysg
- Gwella'r cymorth i blant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd
- Gwella gwasanaethau'r cyngor
- Gwella'r amgylchedd
- Creu economi gadarn a ffyniannus

19 Nodir amcanion y Cyngor yn llawn yn Atodiad 5.

20 Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ddechrau mis Ebrill bob blwyddyn. Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol ym mis Awst 2010 ac fe'i cyhoeddwyd ar ei wefan. Gan mai hon yw un o ddogfennau cyhoeddus pwysicaf y Cyngor, dylai roi proffil uwch i'r cynllun ar y wefan fel ei bod yn haws i gael mynediad iddo. Er nad yw'r Cyngor wedi sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol ar gael i'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill, mae'n llwyddo i gyfathrebu'n effeithiol â dinasyddion lleol o ran yr hyn y mae yn ei wneud a'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni drwy bethau megis y cylchlythyr *Community Spirit*.

21 Mae Cynllun Corfforaethol 2010-2013 *Cyflawni'r hyn sy'n bwysig* wedi'i ysgrifennu'n dda ac mae'n nodi'n glir yr amcanion a bennwyd gan y Cyngor. Cefnogir yr amcanion gan gerrig milltir clir a bennwyd yn erbyn blynyddoedd ariannol. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn egluro'r angen i fynd i'r afael â'r bwlch ariannu a wynebir gan y Cyngor dros y pum mlynedd nesaf, er nad yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth ariannol fanwl. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn adlewyrchu cynnydd presennol yn effeithiol a bydd cyflawni cerrig milltir yn darparu tystiolaeth o weithgarwch er nad ydynt yn fesur uniongyrchol o gyflawni'r canlyniadau cyffredinol. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cysylltu yn ôl i'r Strategaeth Gymunedol, a cheir cyfeiriadau clir at ddogfennau polisi a dogfennau strategol eraill.

22 Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella yn gynharach y flwyddyn nesaf. Er mwyn cael y cyfle gorau i gyflawni ei amcanion gwella, mae angen cytuno ar yr amcanion hynny erbyn dechrau pob blwyddyn, ac yn ddelfrydol ar yr un pryd y caiff y gyllideb am y flwyddyn ei chymeradwyo. Gorau po fwyaf y gall y Cyngor gysylltu ei gynlluniau a'i brosesau, gan y bydd yn gallu gwasanaethu'r cyhoedd yn well.

23 Wrth bennu amcanion gwella, mae angen i'r Cyngor fod yn glir o ran yr hyn y mae'n ceisio'i gyflawni, a rhaid i ddinasyddion lleol wybod pa wahaniaeth y bydd cyflawni'r amcanion hyn yn ei wneud i'w bywydau. Rhaid i'r Cyngor gael ffyrdd o fesur a dangos perfformiad fel ei fod yn glir p'un a yw'r amcanion gwella wedi gwneud gwahaniaeth.

24 Mae'r rhan fwyaf o'r amcanion yn glir o ran yr hyn y maent yn ceisio'i gyflawni, er enghraifft gwella tai ar gyfer tenantiaid y cyngor. Fodd bynnag, mae rhai yn llai clir, er enghraifft gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymyrryd ym mywydau plant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd, a helpu mwy o fusnesau i weithredu.

25 Mae hefyd yn bwysig bod y Cyngor yn gallu mesur ei berfformiad a'i gynnydd. Canfuwyd y bydd y Cyngor yn gallu mesur cyflawni amcanion gwella yn y rhan fwyaf o feysydd. Fodd bynnag, hyd yma nid oes ganddo set gyflawn o fesurau i ddangos pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud i fywydau dinasyddion lleol.

26 Dangosodd gweithdai a gynhaliwyd gennym gydag aelodau a swyddogion y Cyngor ym mis Medi eleni fod y Cyngor yn llawer cliriach o ran yr hyn y mae am ei gyflawni ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau nag y mae'r disgrifiadau yn y Cynllun Corfforaethol yn awgrymu. Hefyd datgelodd y gweithdai fod y Cyngor yn gwybod bod angen iddo ddatblygu ymhellach ei allu i ddangos ei berfformiad cyfredol i'r cyhoedd er mwyn gallu dangos gwelliant yn y dyfodol. Hwn oedd y tro cyntaf y bu'n ofynnol i gynghorau gynhyrchu amcanion gwella, a bydd y Cyngor yn ailystyried ei amcanion er mwyn eu gwneud yn gliriach i ddinasyddion.

27 Edrychwyd hefyd ar ba mor dda yr oedd y Cyngor wedi cynnwys pobl leol a'r rhai sy'n gweithio iddo a chydag ef, wrth bennu'r hyn y dylid ei flaenoriaethu. Canfuwyd bod yr amcanion gwella a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol yn adlewyrchu amcanion Strategaeth Gymunedol 2010-2020 ond fe'u llywiwyd hefyd gan yr angen i sicrhau arbedion. Datblygwyd y Strategaeth Gymunedol drwy ymgynghori â'r cyhoedd a phartneriaid, a chynhaliwyd ymgynghoriad ar yr amcanion gwella ddiwedd mis Mawrth/dechrau mis Ebrill 2010, er mai prin iawn fu'r ymateb.

28 Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â dinasyddion yn rheolaidd i ddewis y ffordd fwyaf priodol o ddarparu a llunio gwasanaethau. Mae angen iddo ymestyn ei ffocws i sicrhau y gall ddangos yn y dyfodol ei fod wedi ymgynghori'n uniongyrchol ar yr amcanion gwella.

29 Astudiwyd pa mor dda y mae'r Cyngor wedi cynllunio ei ymdrechion i wella ac a allai fforddio talu am y gwelliannau hyn. Canfuwyd bod ei waith cynllunio gwelliant wedi'i baratoi'n drwyadl. Nod y Cyngor yw cyflawni disgwyliadau cynyddol trigolion tra'n gweithio gyda chyllidebau sy'n lleihau. Mae am amddiffyn a gwella gwasanaethau cyhoeddus pwysig, yn enwedig y rheini sy'n cefnogi'r bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymunedau. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i'r Cyngor gau bwlch ariannu o tua £29 miliwn dros y pum mlynedd nesaf drwy newid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio.

30 Er bod cryn dipyn o'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud yn ei amcanion gwella gyda'r nod o hybu effeithlonrwydd a chreu arbedion, bydd angen o hyd i'r Cyngor ailystyried ei amcanion, er mwyn sicrhau eu bod yn fforddiadwy, wrth wneud penderfyniadau gwariant ar gyfer cyllideb 2011-12.

31 Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwella ymhellach. Canfuwyd bod systemau'r Cyngor ar gyfer casglu a defnyddio gwybodaeth wedi'u datblygu'n dda ar y cyfan.

32 Cyhoeddodd y Cyngor ei Adroddiad Blynyddol erbyn 31 Hydref 2010, yn unol â gorfodaeth statudol; mae disgwyl i’r adroddiad hwn ddarparu darlun cytbwys o berfformiad y Cyngor rhwng mis Ebrill 2009 a diwedd mis Mawrth 2010. Canfu ein harchwiliad o Adroddiad Blynyddol 2009-10 fod yr adroddiad yn nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer yr awdurdod, ac mae'n cynnwys ei brif flaenoriaethau a sut y caiff perfformiad ei fesur. Mae'r adroddiad yn cynnwys cysylltiadau clir ag amcanion gwella'r Cyngor, ac mae'n adlewyrchu effaith yr hinsawdd economaidd anodd ar allu'r Cyngor i wella.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn gytbwys a cheir datganiadau clir am weithgareddau a chyflawniadau'r Cyngor yn erbyn pob un o'r saith thema. Byddai crynodeb, yn cynnwys hunanasesiad o berfformiad, yn atgyfnerthu'r adroddiad. Mae crynodebau manylach o ystadegau perfformiad wedi'u cynnwys yn yr atodiadau. Er ei fod yn cyflawni'r meini prawf a bennwyd gan Lywodraeth y Cynulliad o ran cynnwys ar y cyfan, nid yw'r Adroddiad Blynyddol yn crynhoi ymagwedd y Cyngor tuag at gydraddoldeb neu gynaliadwyedd, ac nid yw'r cyfeirio at waith rheoleiddwyr ac arolygwyr na'u barn hwythau ar berfformiad y Cyngor. Ar y cyfan, mae'r adroddiad yn cyflwyno darlun o berfformiad sy'n gwella, er bod y Cyngor yn parhau i wynebu heriau. Gellir gweld copi llawn ar wefan y Cyngor (www.neath-porttalbot.gov.uk).

# A yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gwasanaethu pobl yn dda?

33 Drwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol, gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn edrych ar wasanaethau'r Cyngor a rhai o'r amcanion ar gyfer gwella fel y maent yn berthnasol i dair agwedd bwysig ar fywyd yng Nghastell-nedd Port Talbot, ac yn cyflwyno adroddiad ar hynny. Credwn, gyda'i gilydd, fod yr agweddau hyn yn cwmpasu'r prif wasanaethau a ddarperir gan gynghorau ar gyfer dinasyddion. Mae'r agweddau fel a ganlyn:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu;
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw.

34 Yn yr asesiad eleni, rydym wedi edrych ar gynnydd y Cyngor o ran ei amcanion yn y meysydd hyn. Mae'r amcanion a ddewiswyd gennym fel a ganlyn:

- gwella'r cymorth i blant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd (cefnogi pobl mewn angen);
- sicrhau bod ein hysgolion i gyd yn addas at y diben a'u bod yn gallu cynnig profiadau addysgol o ansawdd uchel ar gyfer pob disgybl (helpu pobl i ddatblygu);
- gwella'r trefniadau sydd ar waith gan y Cyngor i gasglu gwastraff a lleihau tirlenwi (creu lle diogel, ffyniannus a dymunol i fyw).

35 Dewiswyd yr amcanion hyn oherwydd gyda'i gilydd maent yn cwmpasu sawl maes allweddol o gyfrifoldebau'r Cyngor. Mae'r cyntaf yn fwy anodd i'w fesur na'r ddau arall, gan y bydd canfyddiad pobl o well cymorth yn amrywio. Mae'r ail a'r trydydd yn haws i'w mesur gan y bydd y Cyngor yn gallu dangos llwyddiant drwy fesur cyrhaeddiad addysgol a chanran gwastraff y cartref a anfonir i safleoedd tirlenwi. Mae hefyd yn bwysig gallu mesur sut y mae gweithredoedd y Cyngor yn effeithio'n uniongyrchol ar gyflawni amcanion ac i ddeall rôl asiantaethau eraill. Ar y cyfan, os yw'r Cyngor wedi dewis blaenoriaethu pethau, dylai fod yn gallu eu mesur o ran sut maent yn effeithio ar bobl leol.

36 Byddwn yn edrych ar amcanion gwella eraill y mae'r Cyngor yn eu pennu iddo'i hun yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

37 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w helpu i ddatblygu eu Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol (CISau) sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn sy'n bennaf cyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau hynny, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau'r Bwrdd. Disgwylir i bob awdurdod lleol gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Bwrdd sy'n egluro sut y gweithredwyd ei gynllun. Mae hyn yn caniatáu i'r Bwrdd gynnig cyngor o ran sut y gallai cyngor wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac i hyrwyddo gwelliant.

38 Cafodd y Cyngor glod gan y Bwrdd am y prosesau casglu data sydd ar waith. Bydd y data perfformiad yn cael ei gynnwys o fewn cynllun iaith statudol y Cyngor a ddiwygir yn fuan, a dylai llywio a dylanwadu ar drefniadau'r Cyngor i gynllunio gwasanaethau dwyieithog yn yr hirdymor. Hefyd cymeradwywyd y Cyngor am ddarparu dogfennaeth etholiadol, yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan y Bwrdd. Fodd bynnag, canfu'r Bwrdd fod ychydig yn llai na hanner gwefan y Cyngor yn cydymffurfio â'i gynllun iaith statudol. Bellach disgwylir i'r Cyngor lunio cynllun gwella i fynd i'r afael â'r mater hwn.

# A yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn helpu pobl mewn angen?

39 Mae gan boblogaeth Castell-nedd Port Talbot anghenion amrywiol, felly mae'n rhaid i'r Cyngor weithio mewn ystod eang o ffyrdd i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae rhai mesurau'n awgrymu bod gan boblogaeth Castell-nedd Port Talbot lefel o anghenion sy'n uwch na'r cyfartaledd. Er enghraifft, mae disgwyliad oes yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Y disgwyliad oes i fenywod yn ardal y cyngor ar gyfer 2006-2008 oedd 80.4 mlynedd o gymharu â chyfartaledd Cymru o 81.4 mlynedd. Y disgwyliad oes i ddynion yng Nghastell-nedd Port Talbot oedd 76.3 mlynedd o gymharu â chyfartaledd Cymru o 77 mlynedd. Bydd y cynnydd mewn disgwyliad oes, dro amser, yn creu mwy o alw am wasanaethau'r Cyngor ar gyfer pobl hŷn, a bydd angen i'r Cyngor gynllunio am y galw hwnnw a'i reoli.

40 Roedd gan ardal y Cyngor y ddegfed lefel uchaf yng Nghymru o feichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau yn 2007 gyda 45.1 achos o feichiogi fesul 1,000 o ferched 15 i 17 oed, o gymharu â chyfradd gyfartalog Cymru o 44.9. Yn 2008, roedd gan Gastell-nedd Port Talbot yr 11eg gyfradd uchaf o blant a oedd yn byw mewn cartrefi heb waith o blith awdurdodau lleol Cymru. Roedd gan Gastell-nedd Port Talbot y 3ydd lefel isaf o ddigartrefedd yn 2008-09 o blith pob cyngor yng Nghymru.

41 Gyda'r newidiadau a ragwelir o ran y boblogaeth, a ffigurau ategol eraill, mae angen i'r Cyngor gynllunio gwasanaethau yn ofalus er mwyn gallu diwallu anghenion pobl.

42 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw cyflawni asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ynghylch gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol ac annog darparwyr y gwasanaethau i wella. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd ceir fframwaith newydd ar gyfer gwaith arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'r fframwaith yn ceisio mynd i'r afael â dau gwestiwn strategol allweddol:

- A oes trefniadau effeithiol ar waith i ddiogelu plant ac oedolion, ac i hyrwyddo eu lles a’u datblygiad, eu hannibyniaeth a'u cynhwysiant cymdeithasol?
- A ellir cynnal a gwella perfformiad?

43 Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu blynyddol ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna bydd AGGCC yn mynd ati i adolygu a dadansoddi tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth a roddir gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Yn dilyn y gwaith dadansoddi hwn ceir cynllun arolygu ac adolygu unigol ar gyfer pob cyngor. Caiff dadansoddiad AGGCC, ynghyd â'r cynllun arolygu ac adolygu, eu cyflwyno bob blwyddyn mewn llythyr a gyhoeddir.

44 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd, a’r nod yw pennu llinell sylfaen yn seiliedig ar berfformiad cyfredol. Ceir crynodeb o negeseuon allweddol y llythyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010 isod.

45 Mae adolygiad AGGCC wedi dod i’r casgliad bod y Cyngor yn ymateb yn effeithiol er mwyn diogelu oedolion a’i fod wedi datblygu ystod eang o wasanaethau ar gyfer oedolion i hyrwyddo annibyniaeth, a bod nifer y bobl sy’n cael cymorth yn y gymuned yn cynyddu; fodd bynnag, mae llawer o bobl mewn gofal preswyl. Mae angen gwella perfformiad mewn perthynas ag ymateb y

gwasanaeth therapi galwedigaethol, ond mae'r adolygiad o grantiau cyfleusterau i bobl anabl, a oedd yn canolbwyntio ar systemau, wedi gwella canlyniadau'n sylweddol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae nifer uwch na'r cyfartaledd o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal. Ymgysylltir yn dda â rhanddeiliaid a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u gofalwyr yn ystod prosesau cynllunio a chomisiynu, ac mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni agenda drawsnewid uchelgeisiol ar gyfer pobl hŷn. Ceir dadansoddiad cadarn o angen mewn perthynas â mentrau strategol, ond mae angen i'r Cyngor wella ei ddefnydd o wybodaeth am berfformiad a sefydlu hyn ar bob lefel a datblygu cynlluniau comisiynu ym mhob gwasanaeth i oedolion. Mae angen i'r Cyngor wella'r canlyniadau a geir drwy gydweithio â gwasanaethau iechyd i ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn sydd â demensia ac anghenion iechyd meddwl.

46 Ceir darlun cymysg ym maes gwasanaethau plant, gyda threfniadau da ar gyfer atgyfeirio, cynnal asesiadau cychwynnol, darparu mynediad ac asesu a lleoli, ac ategir y rhain gan brosesau maethu, mabwysiadu a chymorth teulu integredig sy'n datblygu. Fodd bynnag, mae angen datblygu'r cymorth sydd ar gael i blant ag anableddau a gwella rhai meysydd sy'n gysylltiedig â mynediad cyhoeddus, cynllunio a llunio adroddiadau. Mae angen i'r Cyngor feithrin dealltwriaeth well o'r wybodaeth amrywiol am berfformiad mewn perthynas â diogelu plant i sicrhau bod cysondeb yn y broses o wneud penderfyniadau. Ar y cyfan, mae gan y gwasanaethau cymdeithasol staff ymrwymedig sy'n cydweithio mewn ffyrdd arloesol. Mae uwch reolwyr sefydlog yn sicrhau bod cysylltiadau da'n bodoli â chynlluniau'r Cyngor; fodd bynnag, mae cynllunio dilyniant yn faes y mae angen rhoi sylw iddo a'i ddatblygu o hyd.

## A yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gwella'r cymorth ar gyfer plant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd?

47 Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cryn dipyn o ganolbwyntio ar y gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau i blant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. Amlygodd yr adroddiad o achosion difrifol, y cyflwynwyd adroddiad arno yn ddiweddar, nifer o faterion hanesyddol o ran y ffordd yr oedd y Cyngor arfer gweithredu y mae angen mynd i'r afael â hwy, ac mae hyn, ynghyd â gwybodaeth flynyddol am berfformiad, yn cefnogi pam fod y Cyngor o'r farn fod hon yn flaenoriaeth gwella.

48 Bu cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae'r nifer wedi cynyddu 34 y cant yng Nghastell-nedd Port Talbot. Hwn yw'r cynnydd mwyaf yng Nghymru ac mae'n golygu bod nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu o 290 yn 2009 i 390 yn 2010. Oherwydd y cynnydd hwn yn y niferoedd, mae canran y plant sy'n derbyn gofal a oedd ganddynt gynllun gofal ar waith ar adeg dechrau derbyn gofal wedi lleihau dros y pum mlynedd diwethaf, ac mae bellach yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Mae mwy o bobl ifanc yn gorfod newid gofalwyr neu ysgolion, ac mae hyn yn golygu bod eu bywydau yn llai sefydlog nag yn y gorffennol.

49 Mae'r Cyngor yn cwblhau llai o'i asesiadau cychwynnol o blant o fewn yr amser targed na chyfartaledd Cymru, er bod perfformiad yn gwella. Mae'n gwneud yn well o ran yr asesiad craidd helaethach, gan gwblhau nifer sy'n uwch na'r cyfartaledd o fewn yr amser targed o 35 diwrnod. Fodd bynnag, weithiau gall gymryd hyd at 70 diwrnod i gwblhau'r asesiad.

50 Yn wyneb y nifer cynyddol o blant sy'n agored i niwed a theuluoedd camweithredol, penderfynodd y Cyngor gynnal adolygiad trylwyr o'r gwasanaethau a ddarperir ganddo yn y maes hwn. O ganlyniad i'r adolygiad, bydd y Cyngor yn newid y ffordd y mae'n gweithio fel bod staff yn treulio mwy o amser gyda phlant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. Dylai hyn olygu y bydd staff yn cael gweithio gyda phlant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd ar gam cynharach. Bydd hyn yn atal problemau rhag gwaethygu a galw am fwy o gymorth yn y pen draw. Mae'r Cyngor hefyd am gynyddu nifer y gofalwyr lleol sy'n gallu maethu plant.

51 Mae adolygiad y Cyngor hefyd wedi dangos bod angen gweithio'n agosach gyda phartneriaid fel bod cymorth yn cael ei ddarparu gan y darparwr mwyaf addas. Nid y Cyngor fydd hynny bob tro. Uwchlaw popeth, mae'r Cyngor am sicrhau bod plant sy'n agored i niwed yn ddiogel, mewn sefyllfa sefydlog a'u bod yn cael yr un cyfleoedd â phlant eraill.

52 Bydd y Cyngor yn gallu dangos ei lwyddiant drwy fesurau megis lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, lleihau nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant, cynnydd yn nifer y gofalwyr maeth a gwell presenoldeb a chyrhaeddiad mewn ysgolion. Gall dangosyddion eraill, megis lleihad yn y defnydd o alcohol a chyffuriau, a all hefyd arwain at leihad mewn trais yn y cartref, fod yn arwydd o wella yn erbyn y dangosydd hwn, er nad yw'r Cyngor yn gwbl gyfrifol am welliant yn y meysydd hyn.

53 Er bod y mesurau uchod yn bwysig, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu mesurau ychwanegol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phrofiad y defnyddiwr. Mae'n anodd iawn gwerthuso boddhad cleientiaid, ond mae angen i'r Cyngor gael gwybod pa wasanaethau sydd eu hangen ar ddefnyddwyr, p'un a ydynt yn teimlo'n well, a ph'un a yw eu hanghenion yn cael eu diwallu'n gyflymach.

# A yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn helpu pobl i ddatblygu?

54 Mae Estyn, sef arolygydd gwasanaethau addysg Cymru, yn edrych ar ba mor dda y mae cynghorau yn helpu plant a phobl ifanc i feithrin gwybodaeth a sgiliau. Mae'n arolygu ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau hyfforddi ac yn llunio barn ar ba mor dda y mae cynghorau yn cefnogi'r darparwyr addysg hyn. Mae Estyn, drwy ei dimau rhanbarthol, yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad, yn ymweld ag ysgolion ac yn cyfarfod yn rheolaidd â chyfarwyddwyr addysg er mwyn llunio barn ar rôl y Cyngor a pherfformiad ym maes addysg yn yr ardal.

55 Dywedodd Estyn wrthym fod perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 1 (Blwyddyn 2) wedi bod yn gwella ers 2007, fodd bynnag, bu dirywiad yn 2010 gan arwain at fod yn drydydd isaf yng Nghymru. Bu cynnydd mewn perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6) yn 2010. Er bod perfformiad ledled Cymru wedi parhau i wella'n raddol roedd y cynnydd yn well na chynghorau eraill, sy'n golygu bod y fwrdeistref yn agosach at gyfartaledd Cymru. Yng Nghyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 9), roedd perfformiad wedi gwella yn 2010, er ar gyfradd arafach na gweddill Cymru yn ei chyfanrwydd.

56 Yn 2009, parhaodd perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4 (Blwyddyn 11) yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion. Nid oedd lefel perfformiad mor uchel o gymharu ag awdurdodau eraill ag y bu yn 2007 a 2008, ond mae dal i fod yn uwch na'r hyn y gellid ei ddisgwyl. Dim ond 0.5 y cant o ddysgwyr a oedd wedi gadael addysg llawn amser heb gymhwyster cydnabyddedig yn 2009. Mae hyn yn well na chyfartaledd Cymru ac mae'n welliant sylweddol ar y blynyddoedd blaenorol. Hefyd rhagorodd y Cyngor ar bob un o feincnodau perfformiad Llywodraeth y Cynulliad yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 yn 2007, 2008 a 2009.

57 Mae canran yr oedolion yn y fwrdeistref heb unrhyw gymwysterau wedi lleihau'n raddol ers 2001, ond mae'n parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Bu lleihad yng nghanran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 2009, ond bu'r lleihad ar gyfradd arafach na chyfartaledd Cymru, a bellach mae gan y Cyngor y bedwaredd ganran waethaf yng Nghymru; mae angen i hyn wella. Mae canran y disgyblion sy'n parhau mewn addysg ôl-16 llawn amser wedi gwella yn 2009 ar gyfradd gyflymach na chyfartaledd Cymru, a bellach mae'r Cyngor yn safle 13 o blith cynghorau Cymru.

58 Cynhaliodd Estyn adolygiad o addysg yng Nghastell-nedd Port Talbot ym mis Tachwedd 2010, a chaiff canlyniad yr adolygiad hwn ei gynnwys yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

## A yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn sicrhau bod ysgolion yn addas at y diben ac yn cynnig profiadau addysgol o ansawdd uchel i bob disgybl?

59 Mae gan y Cyngor ddyletswydd i sicrhau addysg gynradd ac uwchradd effeithlon, hyrwyddo safonau uchel, a sicrhau bod pob plentyn yn cyflawni ei botensial. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae'r Cyngor wedi datblygu cynlluniau gwella ysgolion sy'n seiliedig ar set glir o egwyddorion.

60 Bydd gweithredu'r cynlluniau yn arwain at newid sylweddol yn cynnwys agor ysgolion newydd, cau ysgolion sy'n bodoli eisoes, uno neu gyfuno ysgolion, a hybu mentrau newydd sy'n cefnogi cydweithredu rhwng ysgolion. Yn ei hanfod, nod y Cyngor yw sicrhau bod yr ysgolion priodol yn y mannau priodol, fel bod mwy o gyfleoedd addysgol a bod safonau'n gwella.

61 Mae gan y Cyngor gryn dipyn o ddata sy'n dangos ei sefyllfa bresennol. Roedd 3,532 o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd ym mis Ionawr 2010, ac roedd 2,751 o leoedd gwag mewn ysgolion uwchradd. Mae'r ddau ffigur hyn yn cyfateb i fwy nag 20 y cant o gyfanswm y lleoedd mewn ysgolion, ac yn y ddau achos mae hyn yn waeth na chyfartaledd Cymru, yn enwedig ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae gan y Cyngor yr wythfed lefel gwariant uchaf yng Nghymru fesul disgybl ysgol gynradd yng Nghymru, a'r 13eg lefel uchaf ar gyfer ysgolion uwchradd. Amcangyfrifir ar hyn o bryd mai £104.5 miliwn yw cyfanswm gwerth yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw ar gyfer ysgolion ledled y fwrdeistref.

62 Er bod y cynlluniau yn rhai hirdymor, gan ymestyn dros gyfnod o 25 mlynedd, yr her nesaf i'r Cyngor yw dechrau rhoi'r cynlluniau ar waith ar adeg o doriadau mewn gwariant cyhoeddus. Yn y tymor hwy, bydd y Cyngor yn ddibynnol iawn ar gyllid Llywodraeth y Cynulliad os yw am wneud cynnydd gwirioneddol a gallu dangos bod ei gynlluniau wedi codi safonau addysgol.

# A yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw?

63 Mae cyfradd troseddu Castell-nedd Port Talbot wedi lleihau'n gyson dros y saith mlynedd ddiwethaf, a bellach mae'r gyfradd 10 y cant yn is na chyfartaledd Cymru. Difrod troseddol (26 y cant) a lladrata (19 y cant) yw cyfran uchaf y troseddau hyn.

64 Yn 2004-05, roedd gan Gastell-nedd Port Talbot un o'r cyfraddau isaf yng Nghymru o oedolion a oedd yn cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden egnïol yn rheolaidd. 23 y cant oedd y gyfradd hon yn 2004-05. Fodd bynnag, erbyn 2008-09 roedd 51 y cant o oedolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn rheolaidd; roedd hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru.

65 Ym mis Gorffennaf 2010, roedd 3.6 y cant, neu 3,100 o drigolion o oedran gweithio yn ddi-waith, roedd y lefel hon yn cyfateb i gyfartaledd Cymru. Yn 2007, lefel yr incwm aelwydydd crynswth i'w wario y pen yng Nghastell-nedd Port Talbot oedd £12,587, sef y 10fed lefel uchaf o blith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Rhwng 1999 a 2009, roedd enillion yng Nghastell-nedd Port Talbot yn uwch na chyfartaledd Cymru, gyda'r bwlch yn lleihau ychydig Yn 2008, roedd gan Gastell-nedd Port Talbot yr 11eg cyfradd uchaf o blant a oedd yn byw mewn cartrefi heb waith o blith awdurdodau lleol Cymru.

## A yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gwella'r trefniadau sydd ar waith ganddo i gasglu gwastraff a lleihau tirlenwi?

66 Mae gan y Cyngor hanes da o weithredu o reoli gwastraff a hyrwyddo ailgylchu yn y fwrdeistref. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi pennu targedau i bob Cyngor leihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Mae gwasanaethau gwastraff yn destun adolygiad ar hyn o bryd i'w gwneud yn fwy ymatebol i anghenion dinasyddion a hefyd yn symlach.

67 Cyfradd y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, sef ychydig yn llai na 35 y cant, yw'r lefel isaf, ac felly'r lefel orau yng Nghymru. Mae perfformiad yn parhau i fod yn rhagorol, gyda dim ond 22 y cant o wastraff wedi'i anfon i safleoedd tirlenwi yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. Er ei fod yn dda o ran dargyfeirio gwastraff, mae'r Cyngor yn llosgi 22 y cant o'i wastraff. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod hyn yn fodel llai cynaliadwy nag opsiynau amgen.

68 Ynghyd â llawer o awdurdodau, methodd y Cyngor darged Llywodraeth y Cynulliad o ailgylchu 40 y cant o wastraff cartref. Ailgylchodd y Cyngor 34 y cant o wastraff cartref yn 2009-10. Dim ond 19 y cant o wastraff  bioddiraddadwy a ailgylchwyd neu a gompostiwyd, a oedd yn sylweddol is na tharged Llywodraeth y Cynulliad ac roedd ymhlith y gwaethaf yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn perfformio'n well hyd yma eleni drwy gyflwyno trefniadau i gasglu gwastraff bwyd. Mae cynlluniau eraill ar waith i gynyddu ailgylchu, ac mae'r Cyngor yn hyderus y bydd yn cyflawni'r targed ailgylchu nesaf, sef 52 y cant, yn 2013.

69 Nid yw pawb yn ailgylchu. Dangosodd arolwg y Cyngor a gynhaliwyd ym mis Mai 2010 nad oedd 45 y cant o gartrefi yn ailgylchu. Gofynnodd y Cyngor i'r cyhoedd beth y gallai ei wneud i'w gwneud yn haws i ailgylchu, ac yna ymatebodd i'r pum peth mwyaf cyffredin a ddywedwyd gan bobl. Dangosodd arolwg dilynol fod y gweithgarwch hwn wedi cynyddu cyfranogaeth 13 y cant, sy'n arwydd clir o'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor.

70 Mae angen i'r Cyngor sicrhau y bydd ei gynlluniau hirdymor yn ei alluogi i gyflawni targedau perfformiad yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae'r cynlluniau ond yn nodi o ble y daw rhywfaint o'r gwelliant disgwyliedig. Er ei bod yn anodd cynllunio gyda chymaint o ansicrwydd, bydd angen i'r Cyngor daro cydbwysedd gofalus rhwng yr arian a werir a chynnydd posibl mewn costau gwaredu a dirwyon os nad yw'r cyflawni'r targedau a'r lwfansau cenedlaethol.

71 Mae ansicrwydd o ran y dyfodol a chostau ychwanegol posibl gwaredu gwastraff yn cefnogi'r achos dros yr amcan gwella hwn, er bod perfformiad y Cyngor yn gadarn. Erbyn i ni gyhoeddi'r adroddiad hwn y flwyddyn nesaf, byddwn yn gallu dweud wrthych a yw perfformiad da'r Cyngor wedi parhau, a ph'un a oes ganddo gynlluniau cliriach ar gyfer y dyfodol.

# Beth y dylai Cyngor Castell-nedd Port Talbot ei wneud?

72 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

73 Yn sgîl ein gwaith, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol ond dylai'r Cyngor ystyried ein cynigion canlynol i'w helpu i wella:

**Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach**

- cyflwyno system o arfarnu perfformiad staff, gan ddechrau gydag uwch reolwyr, i roi mwy o atebolrwydd, atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad a bod yn sbardun i newid diwylliant y sefydliad;
- mabwysiadu dull mwy cynhwysfawr o rannu gwersi a ddysgwyd o'r Rhaglen Drawsnewid a fyddai'n galluogi mwy o wasanaethau i fod yn ymwybodol o'r canlyniadau a helpu i ymgorffori newid diwylliannol o fewn y Cyngor;
- datblygu mesurau perfformiad i gefnogi'r newid i feddylfryd systemau a galluogi nodi manteision hynny;
- nodi materion sy'n dod i'r amlwg o ran gallu ac adnoddau a datblygu dull o ddatblygu ac adleoli staff a fydd yn helpu i liniaru problemau posibl;
- symleiddio gweithio mewn partneriaeth i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar ddeilliannau ac wedi'i gefnogi gan drefniadau her a chraffu cadarn;
- datblygu strategaeth TGCh a mynd i'r afael â'r cynnydd araf o ran cynnal adolygiad systemau o TGCh.

**Cynigion newydd**

- adolygu'r amcanion gwella sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau eu bod yn fforddiadwy, yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghyllideb 2011-12, a'u bod yn glir i ddinasyddion;
- cyhoeddi amcanion gwella yn gynharach y flwyddyn nesaf;
- ystyried y wybodaeth sydd ar gael eisoes ar gyfer pob amcan gwella i gadarnhau'r sefyllfa bresennol, a nodi'r bylchau sydd angen eu llenwi er mwyn dangos y canlyniadau i ddinasyddion lleol.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio gwahanol agweddau ar sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Cafodd ei chreu yn 2005 pan unwyd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Gwnaeth y ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ehangu pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' i ble bynnag yr aiff.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd y Mesur Llywodraeth Leol gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef cyhoeddi adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau. Diffinnir Awdurdodau Gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Prif waith Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau, yw cynnal Asesiad Gwella blynyddol.[1]

1 Cynhelir yr asesiad hwn ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Ar gyfer pob awdurdod, bydd hyn yn pennu p'un a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad gwella o wybodaeth a chynllunio, fel sy'n ofynnol o dan Adran 17 o'r Mesur, er mwyn canfod a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Caiff yr asesiad hwn ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol - asesiad sy'n ystyried y tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y dyfodol;
- Asesiad o Berfformiad - asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant.

Cyhoeddir allbwn / allbynnau'r asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu o dan adran 19 o'r Mesur. Drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau ein bod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Gastell-nedd Port Talbot a Chyngor Castell-nedd Port Talbot

Aelodau'r Cynulliad dros Gastell-nedd Port Talbot yw:

- Brian Gibbons, Aberafan, y Blaid Lafur
- Gwenda Thomas, Castell-nedd, y Blaid Lafur

Aelodau Cynulliad Rhanbarthol Gorllewin De Cymru yw:

- Alun Cairns, Plaid Geidwadol Cymru
- Peter Black, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Dai Lloyd, Plaid Cymru
- Bethan Jenkins, Plaid Cymru

*Ffynhonnell: Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cyfeirnod Swyddfa Archwilio Cymru: (14)*

Yr Aelodau Seneddol dros Gastell-nedd Port Talbot yw:

- Peter Hain, Castell-nedd, y Blaid Lafur
- Hywel Francis, Aberafan, y Blaid Lafur

*Ffynhonnell: Gwasanaeth Ymchwil Aelodau Cyfeirnod Swyddfa Archwilio Cymru (233)*

Ceir 64 o Gynghorwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys Aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 37 o'r Blaid Lafur
- 11 o Blaid Cymru
- 6 aelod annibynnol
- 4 o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru
- 3 o'r Democratiaid Cymdeithasol
- 3 o'r grŵp Castell-nedd Port Talbot Annibynnol

*Ffynhonnell: Gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot Cyfeirnod Swyddfa Archwilio Cymru: (53)*

Ym mis Mai 2002, sefydlodd y Cyngor ei gabinet newydd o 10 aelod.
Sefydlwyd y system weithrediaeth hon o lywodraeth leol, sy'n cynnwys pum Bwrdd Cabinet, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus mawr yn 2001.

Mae'r weithrediaeth yn gyfrifol am y rhan fwyaf o benderfyniadau'r Awdurdod, er bod y Cyngor llawn yn parhau i gymeradwyo polisïau mawr, e.e. y Gyllideb Flynyddol a Threth Gyngor, ar ôl cael cynigion gan y Cabinet.
*Ffynhonnell: Gwefan Castell-nedd Port Talbot Cyfeirnod Swyddfa Archwilio Cymru: (192) Tîm Rheoli Corfforaethol*

Y Prif Weithredwr yw Steven Phillips ac mae ei dîm rheoli yn cynnwys y:

- Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes: K Napieralla
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai: Tony Clements
- Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol: Derek Davies
- Chyfarwyddwr yr Amgylchedd: John Flower

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor yn www.neath-porttalbot.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yng Nghanolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot, SA13 1PJ neu Ganolfan Ddinesig Castell-nedd, Castell-nedd, SA11 3QZ.

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mehefin 2010.

**Mae trefniadau'r Cyngor yn gwella ac ategir ei agenda gwella uchelgeisiol gan arweinyddiaeth gref, trefniadau cynllunio effeithiol a rheoli ariannol cadarn, ond mae gwendidau o ran rhai trefniadau corfforaethol yn peryglu cynnydd.**

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Gan adeiladu ar sail darpariaeth gref, mae'r Cyngor bellach yn bwrw ymlaen gyda rhaglen newid a flaenoriaethwyd, sydd â'r potensial, os caiff ei rheoli'n ofalus, i gefnogi gwelliant.

Roedd gan y Cyngor drefniadau traddodiadol sefydlog a oedd yn darparu gwasanaethau cadarn, ond roedd angen iddo newid i fynd i'r afael â heriau a oedd yn dod i'r amlwg.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen am newid, mae'n gwneud penderfyniadau pwysig ac yn gweithredu rhaglen newid gydlynol a chynhwysfawr.

Mae maint yr heriau yn y dyfodol, yng nghyd-destun toriadau mewn gwariant sector cyhoeddus, yn golygu y bydd angen rheoli cynlluniau uchelgeisiol y Cyngor yn ofalus os ydynt am gyflawni'r arbedion a'r gwelliannau a ragwelwyd.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Mae gan y Cyngor gryfderau penodol o ran arweinyddiaeth, trefniadau cynllunio effeithiol a rheoli ariannol cadarn, ond mae gwendidau o ran craffu, yr ymagwedd gorfforaethol tuag at TGCh a rhai agweddau ar reoli pobl a gweithio mewn partneriaeth yn peryglu ei gynnydd.

Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth gref ac mae ganddo drefniadau cadarn ar y cyfan ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion a llywodraethu, ond mae angen datblygu prosesau craffu ymhellach.

Tanategir amcanion clir gan gynlluniau cyflawni cydlynol a chynhwysfawr, trefniadau rheoli prosiect cadarn a threfniadau rheoli adnoddau a rheoli risg sy'n effeithiol ar y cyfan.

Mae gwendidau yn ymagwedd y Cyngor tuag at TGCh a rhai agweddau ar reoli pobl a gweithio mewn partneriaeth yn peri risgiau i'r gwaith o gyflawni ei amcanion.

Mae gwendidau o ran trefniadau rheoli perfformiad yn golygu bod bylchau mewn gwybodaeth gorfforaethol a gwybodaeth adrannol.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad ar y clawr mewnol.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

**Cydymffurfiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot â'r gofynion o ran cyflwyno adroddiadau ariannol a gwella perfformiad ond mae angen iddo wella ei brosesau cau cyfrifon, delio â'r bwlch ariannu cyflawn a nodwyd yn y Blaengynllun Ariannol a rhoi trefniadau ehangach ar waith ar gyfer cefnogi gwelliant mewn perfformiad.**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 30 Medi 2010 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Nodwyd y materion canlynol wrth archwilio’r cyfriron:

- roedd rhai cysoniadau banc heb eu cwblhau ar adeg yr archwiliad oherwydd problemau parhaus gyda'r system cysoniadau banc electronig newydd a gyflwynwyd yn 2009-10;
- roedd nifer o daliadau dwbl wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn ond nid oedd y rhain yn berthnasol i'r cyfrifon;

- roedd angen gwella prosesau cau cyfrifon a chynnal adolygiadau ansawdd cadarn er mwyn sicrhau bod y cyfrifon mor gywir â phosibl cyn yr archwiliad;
- nid yw'r materion a godwyd yn y llythyr blynyddol y llynedd mewn perthynas â rheoli cofnodion dyddlyfr, gwahanu dyletswyddau yn adran y dyledwyr a gwella rheolaethau o fewn systemau credydwyr adrannol wedi'u datrys eto.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr  Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnaf eich sylw at y materion canlynol:

- Mae angen i'r Blaengynllun Ariannol gael ei gysylltu'n gliriach â'r rhaglen drawsnewid a sicrhau y caiff y camau sydd eu hangen er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch ariannu cyflawn yn y Blaengynllun Ariannol eu gweithredu. Bydd yr asesiad gwariant cynhwysfawr a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn effeithio ar hyn.
- Mae angen gwella'r gweithdrefnau ar gyfer nodi diddordeb swyddogion a derbyn rhoddion a lletygarwch gan nad oes dull cyson ym mhob rhan o'r Cyngor ar hyn o bryd.
- Gwnaeth yr Archwiliad Mewnol gydymffurfio â safonau CIPFA, er bod peth llithrant yn ei gynllun yn sgîl prinder staff a nifer o ymchwiliadau arbennig.

Mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 yn bodloni gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2009-10. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys digon o wybodaeth mewn dau faes penodol. Nid oes crynodeb o ddulliau'r Cyngor o ymdrin â chydraddoldeb a chynaliadwyedd ac nid yw'n cyfeirio at waith y rheoleiddwyr a'r archwilwyr na'u barn ar berfformiad y Cyngor.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2010.

Bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-10 £15,457 yn fwy na'r swm a nodwyd yn y Strategaeth Archwilio Ariannol yn sgîl y profion ychwanegol sydd eu hangen i liniaru'r materion sy'n ymwneud â pheidio â chwblhau cyflawniadau banc a rheolaethau credydwyr a dyledwyr y cyfeiriwyd atynt uchod.

# Atodiad 5

## Amcanion gwella Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2010-2013, *Cyflawni'r hyn sy'n bwysig*, sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.neath-porttalbot.gov.uk

Mae'r amcanion fel a ganlyn:

- Gwella safon tai ar gyfer tenantiaid y cyngor.
- Gwella'r preifatrwydd a'r urddas a roddir i bobl hŷn sy'n byw yng nghartrefi gofal preswyl y Cyngor.
- Atal mwy o bobl rhag gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty pan ellir gofalu amdanynt yn y gymuned, ac rydym am sicrhau y gall mwy o bobl ddychwelyd adref o'r ysbyty pan fyddant yn barod i gael eu rhyddhau.
- Rydym am i oedolion sy'n agored i niwed fwynhau ansawdd bywyd da a chael cymorth i fyw mor annibynnol â phosibl.
- Sicrhau bod ein hysgolion yn addas at y diben a'u bod yn gallu cynnig profiadau addysgol o ansawdd uchel ar gyfer pob disgybl.
- Gwella'r ffordd rydym yn ymyrryd ym mywydau plant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd.
- Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn haws i'w defnyddio, yn fwy effeithlon ac o ansawdd uwch.
- Gwella'r trefniadau sydd ar waith gan y Cyngor i gasglu gwastraff a lleihau tirlenwi.
- Rydym am adeiladu dau gyfleuster hamdden a diwylliannol allweddol yn lle'r ddau a ddinistriwyd mewn tân. Rydym hefyd am wella Gerddi Fictoria yng Nghastell-nedd, y gwneir defnydd mawr ohonynt.
- Helpu mwy o fusnesau i weithredu, ac rydym am helpu pobl sydd am ddod o hyd i waith.

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Daw'r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau cryno ardaloedd lleol
- Gwefannau a chynlluniau gwella'r awdurdod gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol